Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Head Teacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

22 Mai 2014

Annwyl Riant/Warchedwr,

Ysgrifennaf i'ch hysbysu na fydd angen i'ch plentyn fynychu ysgol yfory (23 Mai 2014) ar wahân i'r amgylchiadau isod:

(i) os oes ganddyn nhw arholiad allanol (Drama, Dylunio a Thechnoleg)
(ii) os ydynt yn aelod o grŵp Mathemateg Set 3 Ms Hawkins- **mae'n hanfodol i'r disgyblion yma fynychu Gwers 3 yn unig yfory**
(iii) os ydynt yn ddisgyblion BTEC sydd heb orffen unrhyw waith cwrs.

Ar ôl hanner tymor ni fydd disgwyl i ddisgyblion fod yn bresennol ar wahân i fynychu arholiadau. Fodd bynnag, mae'r adran Fathemateg wedi trefnu'r sesiynau adolygu canlynol:

Dydd Gwener, 06.06.14	Ar ôl Arholiad Cymraeg
Dydd Llun, 09.06.14	Sesiwn orfodol rhwng 8.00-9.00 y bore, staff ar gael o 7 o'r gloch
Dydd Gwener, 13.06.14	Trwy'r dydd
Dydd Llun, 16.06.14	Drws Agored *(*Gwirfoddol*)*

Disgwyliwn i bob disgybl fynychu'r tri sesiwn cyntaf.

Byddwch yn derbyn gwybodaeth bellach am unrhyw sesiynau adolygu fydd yn cael eu cynnal yn ystod y mis nesaf ar ôl hanner tymor.

Os yw disgybl yn mynychu'r ysgol i weld aelod o staff neu i adolygu disgwylir iddo/iddi:

- gysylltu â'r ysgol o flaen llaw (trwy e-bost neu ffôn)
- fynd i'r ystafell adolygu os nad oes aelod o'r staff yn ei dysgu/ddysgu.

Dylai disgyblion wisgo gwisg ysgol i fynychu sesiynau adolygu/gwersi anffurfiol a sefyll arholiadau.

Diolch yn fawr o flaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elfed Charles
Is-Bennaeth

Campws Cymunedol Gartholwg Community Campus